Community News
Winter 2020

# LLANEDI COMMUNITY COUNCIL

## Serving **Llanedi**, **Tycroes** and **Hendy**

# WELCOME TO LLANEDI COMMUNITY NEWS

*In this issue:*

- Focus on projects and volunteering
- Meet volunteers who are making a difference
- Christmas Lights
- Terry Price Award Winner
- Community fights Covid

### Community Action Hub

**Llanedi CC is one of only 5 areas in the county to be supported as a 'Community Action Hub' where informal and spontaneous volunteering is encouraged and celebrated.**

Strengthening existing connections as well as making new ones will help increase our communities sense of wellbeing. A Local Action Hub empowers local people to rejuvenate their own communities.

### Councillor Buddug Thomas

**We were all deeply saddened by the passing of Mrs Buddug Thomas of Bryngwili Road, Hendy.**



She had been a highly respected and hardworking member of the Community Council since 1983 and served as its Chairperson on three separate occasions. In addition, she had served the community faithfully and energetically in several capacities and was particularly committed to activities which promoted the use of the Welsh language. **She will be greatly missed by all who knew her.**



## A MESSAGE FROM OUR SCHOOLS...

**The staff in all three schools are delighted to welcome their pupils back.**

*The children have been wonderful and have been so happy to see each other and have adapted very well to the 'new normal'.*

## The Terry Price Award

**We were pleased to award this year's Terry Price Award to thirteen year old Kiera Francis who lives in Tycroes with her parents and brother.**




Since joining her local Judo Club in 2017 she has shown great potential. She has achieved high competitive honours locally, nationally and internationally and is now an established member of the Welsh Judo squad. We wish her well for the future.

If you know of anyone under the age of 25 who deserves recognition for achievement in any activity, please nominate them for next year's award.

## Hendy Park

**Hendy Park, rated the second best in Wales, attracted large numbers of visitors over the spring and summer months, many from outside the locality.**



This created parking problems with many roads near the park becoming congested.

Hendy Rugby Club had kindly allowed visitors to use the club's car park (other than on match days). Please let anyone you know who comes to the park by car, that safe parking is free at the Rugby Club (accessible via Sawel Terrace and River Terrace).

The park has also benefitted from targeted wildflower planting which has helped brighten up the banks and encouraged wildlife.

## Christmas Lights

**The Community Council will provide traditional Christmas lights in the usual localities in Tycroes, Llanedi, Fforest and Hendy again this year.**

Your local lights will be switched as follows:



- Friday 27th November **Llanedi & Tycroes**
- Friday 4th December **Hendy & Fforest**

***The Community Council wishes you all a Merry Christmas!***



## Friendship Circle

**The Freindship Circle held two open air meetings between lock downs - both were well attended and it was clear that everyone enjoyed catching up.**

It is hoped the group can meet again before too long, local lockdowns allowing.

## Fly Tipping

**This serious crime poses an immediate threat to our environment, animals and local communities.**

If you pay someone to get rid of your rubbish, check they are licensed. If a householder's waste is found flytipped and can be identified, the owner can be fined £300 and could face further prosecution.

If you see any fly-tipping, please inform the Council or your local councillor and the police (if you can help identify the offender). Help us to keep our community clean and healthy and an asset we can all enjoy.

Spotlight On...
# PROJECTS AND VOLUNTEERING

**The Community Council is proud to be enabling and supporting a range of projects in our community. We've highlighted some of them here.**

**To volunteer for any of these projects,** please contact the Community Development Officer **Llanedicdo@gmail.com**, Tel **07862 218066** during offices hours.

VOLUNTEER OPPORTUNITY




## Creating a Community Association

On the back of the fantastic volunteer response to Covid 19, we are looking to harness all that people power into a Community Association - a body that works alongside the Community Council for the common good of our area.

## Hendy Community Centre

Plans to convert the existing cricket club house into a modern, multi-use community facility are well advanced and it is hoped that construction work will commence soon. We are looking for volunteers to help us develop the programme for the site and to be involved in running it when it opens.

## Tycroes Environmental Project

We are looking at ways of working to make our green spaces better for nature and people alike. We have applied for funding to undertake a scheme across Tycroes Park and Woods and Cwmfferws Park. These will include better pathways and accessibility, creating wildflower meadows and wildlife corridors, a community orchard and 'growing' space. Help us make these plan a reality!

## Collecting Community Assets

We are in the process of listing everything our respective villages have to offer. From parks to businesses, sports to heritage, we plan to map it all! Better still, why not suggest some or come and help us as a Community Mapping Volunteer.

## Friends of Tycroes Park

Just before lockdown, a group of local people asked us to help them set up a Friends group for the park. The group is keen to help the Community Council develop the facilities on site for the benefit of all. We will be taking this forward with a 'virtual' meeting.

## Litter Pickers

The Community Litter Picking Group is hoping to restart soon, having been disrupted by Covid 19. The group have a great record of 'picks' across the Community Council area.

## Dog Fouling

This is a constant issue in our community. Pre lock-down, volunteers were out and about literally highlighting the issue with chalk spray, and they are starting to get back out there, so be warned! If you are caught allowing your dog to foul in a public place, you will be prosecuted.




## Hendy Nature Trail

We are pleased to announce the opening of the trail. The 630m path located at the former Cricket Ground, gives you the chance to experience 4 different habitats that support over 60 species of birds, and 70 species of moths and butterflies, as well as many other invertebrates, reptiles and mammals.The path is wide and the slopes have been softened to make it accessible to all. We've a host of volunteer roles from wardens to species recorders.




## MEET THE Volunteer...

**We've asked some of our volunteers to share why they contribute to our community.**



**Sharon** - Tycroes Chip Supper Coordinator

"I have a natural instinct to want to help people and after retiring as a nurse, two years ago, I found myself at a bit of a loose end. As I had not been living in Tycroes long, volunteering gave me the opportunity to help others and get to know the community better. As a result I have met many people and made new friends."



**Gemma** - Public Engagement Volunteer

"I volunteer to make use of, and develop, my skills whilst I've been furloughed and to help make things happen in the community."



**Mike** - Hendy Nature Trail Volunteer

"Having used the site to aid my physical recovery following medical procedures it was wonderful to see the plans to create the nature trail for the community. My time walking there helped me immensely and as a keen ornithologist, I had amassed photographs and records of all forms of wildlife. These turned out to be a useful asset in the development of the project. I volunteer because helping the community share just a small amount of the pleasure I've had from the site seems the least I can do."

## Community Fights Covid

**The Council has been proud of how our community has responded to the pandemic.**

Over 30 people signed up to volunteer with us to help with shopping, prescription collection, befriending and other jobs. We have also been delighted to work with and find some financial support for the **Hendy Hot Meals** project run by volunteers from Hendy RFC, and the **Tycroes Chip Supper** project run by local Covid-19 volunteers.



Both schemes have provided hot food and a cheery 'hello' to the most vulnerable in our community - thank you all! If you know anyone who needs help, please contact us.

## Contact Us:

**Llanedi Community Council is your Council**. You can contact us by getting in touch with our Clerk: **E:** daidco@yahoo.co.uk **M:** 07971 026493 or Community Development Officer: **E:** Llanedicdo@ gmail.com **M:** 07862 218066 or any of your elected councillors.

Information on the Council's actions and activities are available on our website **W:** www.llanedi.org.uk and on social media @LlanediCC

Llywodraeth Cymru Welsh Government

wwcp Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru West Wales Care Partnership

CGGSG ~ CAVS

Newyddion Cymunedol
Cyngor Cymuned Llanedi
Gaeaf 2020

Yn gwasanaethu **Llanedi**, **Tycroes** a'r **Hendy**

# CROESO I
# NEWYDDION CYMUNEDOL LLANEDI

*Yn y rhifyn hwn:*

- Ffocysu ar brosiectau a gwirfoddoli
- Cwrdd â gwirfoddolwyr sy'n gwneud gwahaniaeth
- Goleuadau'r Nadolig
- Enillydd Gwobr Terry Price
- Y gymuned yn ymafael â Covid-19

## Hyb Gweithredu Cymunedol

**Mae ardal Cyngor Cymuned Llanedi yn un o 5 ardal yn unig yn y sir sy'n cael eu cefnogi fel 'Hyb Gweithredu Cymunedol', lle y mae gwirfoddoli anffurfiol a digymell yn cael ei annog a'i ddathlu.**

Bydd cryfhau y cysylltiadau presennol, yn ogystal â chreu rhai newydd, yn helpu codi'r ymdeimlad o lesiant yn ein cymunedau. Mae Hyb Gweithredu Cymunedol yn grymuso pobl lleol i adnewyddu eu cymunedau eu hunain.

## Y Cynghorydd Buddug Thomas

**Roedd pawb yn drist iawn i glywed am farwolaeth Mrs Buddug Thomas, Heol Bryngwili, Yr Hendy.**



Roedd hi wedi bod yn aelod gweithgar, uchel ei pharch, o'r Cyngor Cymuned ers 1983 ac, ar dri achlysur, wedi bod yn Gadeirydd y Cyngor. Yn ychwanegol at hyn, roedd hi wedi gwasanaethu'r gymuned yn ffyddlon ac yn egnïol mewn sawl ffordd ac roedd wedi'i hymrwymo yn arbennig at weithgareddau a oedd yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg. **Bydd pawb o'i chydnabod yn gweld ei heisiau yn fawr.**



## NEGES O'N HYSGOLION...

**Mae staff y dair ysgol yn hynod falch i groesawu eu disgyblion yn ôl i'w gwersi.**

*Mae'r plant wedi bod yn ardderchog ac wedi bod mor hapus i weld ei gilydd unwaith eto ac yn ymdopi'n dda iawn gyda'r 'normal newydd'.*

## Gwobr Terry Price

**Eleni, mae'n bleser gennym ddyfarnu Gwobr Terry Price i Kiera Francis, merch tair ar ddeg oed, sy'n byw yn Nhycroes gyda'i rhieni a'i brawd.**



Ers iddi ymuno â'i Chlwb Jiwdo yn 2017 mae wedi dangos llawer o botensial. Mae wedi ennill cystadlaeuthau mawr yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol ac mae'n aelod sefydlog o garfan Jiwdo Cymru. 'Rydym yn dymuno'n dda iddi hi yn y dyfodol.

Os ydych yn gwybod am rywun, o dan 25 oed, sy'n haeddu cydnabyddiaeth am ragoriaeth mewn unrhyw weithgaredd, a wnewch chi eu henwebu i dderbyn y wobr hon y flwyddyn nesaf.

## Parc yr Hendy

**Yn ystod misoedd y gwanwyn a'r haf roedd Parc yr Hendy, yr ail barc gorau yng Nghymru yn ôl barn y cyhoedd, wedi denu niferoedd mawr o ymwelwyr, llawer ohonynt yn dod o tu fas i'r ardal leol.**



Roedd hyn wedi achosi problemau parcio ceir gan fod llawer o'r heolydd ger y parc wedi bod yn orlawn gyda cheir.

Roedd Clwb Rygbi yr Hendy, yn garedig iawn, wedi caniatau i'r ymwelwyr ddefnyddio maes parcio y clwb (ar wahan i'r diwrnodau hynny pan roedd gem).

A wnewch chi rhoi gwybod i unrhywun sy'n dod i'r parc mewn car bod parcio diogel, am ddim, i'w gael yn y Clwb Rygbi (mynediad drwy Deras Sawel a Theras yr Afon).

Mae'r parc hefyd wedi elwa ar ol plannu blodau gwyllt, ac mae hyn wedi helpu dod â lliw i'r cloddiau ac wedi hybu bywyd gwyllt.

## Goleuadau'r Nadolig

**Unwaith eto eleni bydd y Cyngor Cymuned Y Cylch Cyfeillgarwch yn darparu goleuadau Nadolig traddodiadol yn y lleoliadau arferol yn Nhycroes, Llanedi, y Fforest a'r Hendy.**



Bydd y goleuadau lleol yn cael eu cynnau ar y dyddiadau canlynol:

- Dydd Gwener Tachwedd 27ain **Llanedi a Thycroes**
- Dydd Gwener Rhagfyr 4ydd **Yr Hendy a Fforest**

***Mae'r Cyngor Cymuned yn dymuno Nadolig Llawen i bawb!***



## Y Cylch Cyfeillgarwch

**Rhwng y ddau gyfnod clo roedd y Cylch Cyfeillgarwch wedi cynnal dau gyfarfod yn yr awyr agored - daeth nifer dda i'r ddau gyfarfod ac roedd hi'n glir fod pawb wedi mwynhau dal i fyny.**

Y gobaith yw y bydd y grŵp yn gallu cyfarfod unwaith yn rhagor cyn bo hir, os rhoddir caniatâd i wneud hynny.

## Tipio Anghyfreithlon

**Mae'r drosedd ddifrifol hon yn fygythiad uniongyrchol i'n hamgylchedd, anifeiliaid a'n cymunedau lleol.**

Os byddwch yn talu rhywun i waredu eich sbwriel, gwnewch yn siwr bod ganddynt drwydded. Os bydd gwastraff tŷ yn cael ei ddarganfod wedi'i dipio yn anghyfreithlon, a bod modd ei adnabod, gall y deiliad tŷ wynebu dirwy o £300, a/neu erlyniad pellach.

Os byddwch yn dod ar draws unrhyw dipio anghyfreithlon rhowch wybod i'r Cyngor, neu eich cynghorydd lleol a'r heddlu (os gallwch helpu i adnabod y troseddwr) os gwelwch yn dda. Helpwch ni i gadw'n cymuned yn lân ac iachus, ac yn gaffaeliad y gall pawb fwynhau.

# Canolbwyntio ar...
# BROSIECTAU A GWIRFODDOLI

**Mae'r Cyngor Cymuned yn falch i hyrwyddo a chefnogi ystod o brosiectau yn ein cymuned. 'Rydym wedi amlygu rhai ohonynt yma.**

**I wirfoddoli gydag unrhyw un o'r prosiectau hyn,** cysylltwch â'r Swyddog Datblygu Cymunedol Llanedicdo@gmail.com, Ffôn: 07862 218066 yn ystod oriau swyddfa.

CYFLE I WIRFODDOLI




## Creu Cymdeithas Gymunedol

O ganlyniad i'r holl ymateb gwych gan wirfoddolwyr i Covid 19, 'rydym am ddefnyddio holl rym y bobl er mwyn ffurfio Cymdeithas Gymunedol - corff a fydd yn gweithio ochr yn ochr â'r Cyngor Cymuned er lles pawb yn ein hardal.

## Canolfan Gymunedol yr Hendy

Mae'r cynlluniau i addasu adeilad presennol y clwb criced i greu adnodd modern, aml-bwrpas ar gyfer y gymuned yn symud ymlaen yn dda, a'r gobaith yw y bydd y gwaith adeiladu yn dechrau cyn bo hir. 'Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr i'n helpu ni i ddatblygu'r rhaglen ar gyfer y safle, ac i ymwneud â'i gynnal unwaith y bydd ar agor.

## Prosiect Amgylcheddol Tycroes

'Rydym yn meddwl am ffyrdd o weithio er mwyn gwella'n mannau gwyrdd ar ran natur a phobl fel ei gilydd. 'Rydym wedi gwneud cais am gyllid i gyflwyno cynllun ar draws Parc a Choedwig Tycroes a Pharc Cwmfferws. Bydd y rhain yn cynnwys gwell llwybrau troed a hygyrchedd, creu dolydd blodau gwyllt a choridorau i fywyd gwyllt, perllan gymunedol a gofod 'tyfu'. Helpwch ni i wireddu'r cynlluniau hyn!

## Casglu Asedau Cymunedolol

Rydym yn y broses o restru'r holl adnoddau sydd gan ein pentrefi i'w cynnig. Gan amrywio o barciau i fusnesau, chwaraeon i dreftadaeth, 'rydym yn bwriadu mapio'r cyfan! Yn well fyth, pam na wnewch chi awgrymu rhywbeth, neu ddod i'n helpu ni fel Gwirfoddolwr Mapio Cymunedol.

## Ffrindiau Parc Tycroes

Ychydig cyn i'r cyfnod clo ddechrau roedd grŵp o bobl lleol wedi gofyn i ni i'w helpu i sefydlu grŵp o ffrindiau'r Parc. Mae'r grŵp yn awyddus i helpu'r Cyngor Cymuned i ddatblygu'r adnoddau ar y safle, er budd pawb. Byddwn yn datblygu'r syniadau hyn drwy gyfrwng cyfarfod 'rhithiol'.

## Casglu Sbwriel

Mae'r grŵp Casglu Sbwriel Cymunedol yn gobeithio ail-ddechrau ei waith cyn bo hir, wedi iddo gael ei amharu gan Covid-19. Mae gan y grŵp record da o 'gasglu' ar draws ardal y Cyngor Cymuned.

## Baeddu gan Gŵn

Mae hyn yn broblem barhaus yn ein cymuned. Cyn y cyfnod clo roedd y gwirfoddolwyr wrth eu gwaith yn amlygu'r broblem, yn llythrennol, gyda chwistrell sialc; erbyn hyn, maen nhw'n dechrau ail-gydio yn y gwaith felly, 'rydych wedi eich rhybuddio! Os cewch eich dal yn gadael i'ch ci faeddu mewn man cyhoeddus byddwch yn cael eich erlyn.



## Llwybr Natur yr Hendy

Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod y llwybr ar agor. Mae'r llwybr 630 metr o hyd, a leolir ar yr hen Gae Criced, yn rhoi cyfle ichi fwynhau 4 gwahanol cynefin sy'n cynnal dros 60 rhywogaeth adar, 70 rhywogaeth o wyfynod ac ieir bach yr haf, ynghyd â llawer o infertebrata, ymlusgiaid a mamaliaid eraill. Mae'r llwybr yn llydan ac mae'r llethrau wedi'u meddalu er mwyn gwneud y cyfan yn hygyrch i bawb. Mae llu o waith gwirfoddoli ar gael, yn amrywio o wardeniaid i gofnodwyr rhywogaeth.



## Cysylltwch â ni:

**Eich Cyngor CHI yw Cyngor Cymuned Llanedi.** Gallwch gysylltu â ni drwy gyfathrebu gyda'r Clerc: **E:** daidco@yahoo.co.uk **FF:** 07971 026493 neu'r Swyddog Datblygu Cymunedol: **E:** Llanedicdo@ gmail.com **FF:** 07862 218066 neu unrhyw un o'ch cynghorwyr etholedig.

Mae gwybodaeth ynghylch gweithgareddau'r Cyngor ar gael ar ein gwefan: **W:** www.llanedi.org.uk ac ar y cyfryngau cymdeithasol @LlanediCC


# DEWCH I GWRDD Â'R
# Gwirfoddolwr...

**'Rydym wedi gofyn i rhai o'n gwirfoddolwyr i rannu eu rhesymau dros gyfrannu i'w cymuned.**



**Sharon** - Cydlynydd Swper Sglodion Tycroes

"Yn reddfol, dw i am helpu bobl ac, ar ôl ymddeol o'm gwaith fel nyrs ddwy flynedd yn ôl, roeddwn yn chwilio am rywbeth i lenwi'r amser. Gan fy mod yn gymharol newydd i bentref Tycroes, roedd gwirfoddoli yn rhoi'r cyfle imi helpu eraill ac i ddod i nabod y gymuned yn well. O ganlyniad, dw i wedi cwrdd â llawer o bobl newydd ac wedi gwneud ffrindiau newydd".



**Gemma** - Gwirfoddolwr Ymgysylltu â'r Gymuned

"Dw i'n gwirfoddoli er mwyn defnyddio a datblygu fy sgiliau tra fy mod ar ffyrlo, ac er mwyn helpu gwneud pethau i ddigwydd yn y gymuned".



**Mike** - Gwirfoddolwr Llwybr Natur yr Hendy

"Roeddwn wedi defnyddio'r safle i helpu gwella yn gorfforol ar ôl derbyn triniaethau meddygol. Felly roedd gweld y cynlluniau i greu llwybr natur ar gyfer y gymuned yn wych. Roedd y cyfnod a dreuliais yno yn cerdded wedi fy helpu yn aruthrol a, gan fy mod yn ornitholegydd brwd, roeddwn wedi casglu ffotograffau o, a chofnodion am, bob math o fywyd gwyllt. Mae'r rhain wedi profi i fod yn ased defnyddiol yn natblygiad y prosiect. Dw i'n gwirfoddoli oherwydd dw i am i'r gymuned rhannu ychydig o'r pleser y mae'r safle wedi ei rhoi i mi. Dyna'r lleiaf y gallaf wneud".

## Y Gymuned yn ymafael â Covid

**Mae'r Cyngor wedi bod yn falch iawn o'r ffordd y mae ein cymuned wedi ymateb i'r pandemig.**



Roedd dros 30 o bobl wedi ymaelodi i wirfoddoli gyda ni er mwyn helpu gwneud y siopa, casglu presgripsiynau, cyfeillio a dyletswyddau eraill.

Mae hefyd wedi bod yn bleser cydweithio gyda, a chynnig peth cymorth ariannol i'r prosiect **Prydau Bwyd Twym yr Hendy**, a ddarparwyd gan wirfoddolwyr o **Glwb Rygbi yr Hendy**, a phrosiect **Swper Sglodion Tycroes**, a ddarparwyd gan wirfoddolwyr Covid-19 lleol.

Mae'r ddau gynllun wedi darparu bwyd twym a 'helo' siriol i'r mwyaf bregus yn ein cymuned - diolch i bawb ohonoch! Os 'rydych yn gwybod am unrhywun sydd angen help, cysylltch â ni os gwelwch yn dda.

Llywodraeth Cymru Welsh Government

wwcp Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru West Wales Care Partnership

CGGSG ~ CAVS